# Penderfyniadau teledu lleol: diwygiadau i'r Ymrwymiadau Rhaglennu ar gyfer pob trwydded deledu leol a ddelir gan That's TV Broadcasting Limited

## Y Cais

That's TV Broadcasting Limited ("That's TV" neu "y Trwyddedai") yw'r cwmni daliannol pennaf ar gyfer y trwyddedau Teledu Lleol sy'n darparu ar gyfer ardaloedd Aberdeen, Abertawe, Ayr, Basingstoke, Caeredin, Caerefrog, Caergrawnt, Caersallog, Carlisle, Dundee, Glasgow, Grimsby, Guildford, Manceinion, Norwich, Preston, Reading, Rhydychen, Scarborough a Southampton. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau a ddarperir gan y deiliad trwydded hwn fodloni rhwymedigaethau cynnwys penodol a nodir yn y trwyddedau, sef yr 'Ymrwymiadau Rhaglennu.

Ar 7 Mai 2021, cyflwynodd That's TV gynnig i Ofcom yn ymwneud â lleoliad stiwdios/prif ganolfannau cynhyrchu ar gyfer y trwyddedau y mae'n eu dal. Darparodd That's TV eglurhad pellach ar y cynigion hyn mewn llythyrau dyddiedig 8 Gorffennaf, 16 Awst, a 6 Medi 2021. Rhoddodd Ofcom ganiatâd i'r cynigion ar 1 Tachwedd 2021. Cynigiwyd cynnwys y geiriau canlynol yn Ymrwymiadau Rhaglennu pob un o'r 20 trwydded a ddelir gan That's TV:

***"Gall y darparwr gwasanaeth gydleoli ei brif ganolfan gynhyrchu gyda gwasanaethau teledu lleol penodedig eraill o fewn ei grŵp yn amodol ar gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Ofcom a chynnal gweithgarwch cywain newyddion lleol sylweddol yn ardal y drwydded."***

## Fframwaith statudol

O dan Ddeddf Darlledu 1996 (Deddf 1996"), mae'n rhaid i drwyddedau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni teledu digidol lleol ("L-DTPS") gynnwys unrhyw amodau y mae Ofcom yn tybio eu bod yn briodol ar gyfer sicrhau, ymhlith pethau eraill, bod cymeriad y gwasanaeth trwyddedig, fel y'i cynigir gan ddeiliad y drwydded wrth wneud y cais, yn cael ei gynnal drwy gydol y drwydded.[1] Adlewyrchir y gofyniad hwn yn Amod 5(1) y trwyddedau L-DTPS a'r ymrwymiadau rhaglennu a nodir yn y trwyddedau. Mae gan Ofcom y pŵer i amrywio amodau trwydded drwy hysbysiad.[2]

Mae'r fframwaith statudol yn darparu y gall amodau sydd wedi'u cynnwys mewn trwydded L-DTPS awdurdodi Ofcom i roi cydsyniad i wyro oddi wrth gymeriad y gwasanaeth os bodlonir pedwar sail statudol, ac mae'n nodi gofyniad gweithdrefnol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus cyn y gall Ofcom benderfynu rhoi cydsyniad i wyro oddi wrth gymeriad y gwasanaeth.[3] Dim ond pan fo'r newid y gofynnwyd amdano yn gwyro oddi wrth gymeriad y gwasanaeth y mae'r gofynion hyn yn berthnasol.

[1] Adran 19(3A)(c) Deddf 1996 fel y'i haddaswyd gan Orchymyn Gwasanaethau Rhaglenni Teledu Lleol 2012.
[2] Adran 4(4) Deddf 1996.
[3] Adran 19 Deddf 1996 fel y'i haddaswyd gan Orchymyn Gwasanaethau Rhaglenni Teledu Lleol 2012.

## Penderfyniad Ofcom

Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r gwaith o gyflawni rhai o'i swyddogaethau gwasanaeth darlledu i nifer o uwch weithredwyr Ofcom yn y Grŵp Cynnwys Darlledu ac Ar-lein a'r Grŵp Cyfreithiol. Mae'r unigolion hynny, ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, yn gyfrifol am benderfynu ar ddyfarnu trwyddedau L-DTPS a chynigion i'w hamrywio.

Ar 1 Tachwedd 2021, rhoddodd Ofcom gydsyniad i'r cynnig o ran lleoliad stiwdios a gyflwynwyd gan That's TV, ar yr amod y byddai That's TV yn sicrhau cynnal presenoldeb lleol yn Ardal Drwyddedig pob gwasanaeth. Esboniodd That's TV yn ei gynnig y byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy ddefnyddio ei newyddiadurwyr i gywain, datblygu a recordio cyfweliadau yn y fan a'r lle o fewn yr Ardal Drwyddedig a thrwy ddefnyddio datblygiadau mewn technoleg i recordio cyfweliadau drwy fideo-gynadledda ar-lein. Hefyd, cynigiodd That's TV i gynnwys ymrwymiad rheoleiddio yn ei Ymrwymiadau Rhaglennu ar gyfer yr holl drwyddedau teledu lleol y mae'n eu dal, fel y nodir uchod.

Ystyriodd un o gydweithwyr Ofcom gyda'r teitl swydd Pennaeth, Trwyddedu Darlledu a Gweithrediadau Rhaglenni ("y Gwneuthurwr Penderfyniad") y cynnig hwn ar adeg rhoi cydsyniad i That's TV weithredu ei gynigion. Roedd y Gwneuthurwr Penderfyniad o'r farn y byddai cymeriad cyffredinol pob un o'r gwasanaethau yn cael ei gynnal ar ôl cynnwys yr ymrwymiad rheoleiddio. Yn unol â hynny, penderfynodd y Gwneuthurwr Penderfyniadau na fyddai'r ymrwymiad rheoleiddio arfaethedig ym mhob achos yn gyfystyr â gwyriad oddi wrth gymeriad y gwasanaeth, ac y dylid ei gynnwys yn yr Ymrwymiadau Rhaglennu ar gyfer pob trwydded a ddelir gan That's TV (darperir y rhestr lawn o drwyddedau a ddelir gan That's TV ar frig y datganiad hwn).

Mae That's TV wedi cadarnhau i Ofcom ei fod wedi gweithredu ei gynnig ar 1 Ebrill 2022. Felly, mae'r ymrwymiad rheoleiddio ychwanegol bellach wedi'i ychwanegu at yr Ymrwymiadau Rhaglennu ar gyfer pob trwydded a ddelir gan That's TV o 1 Ebrill 2022. Mae'r Ymrwymiadau Rhaglennu diwygiedig ar gyfer pob trwydded i'w gweld, isod, gyda'r geiriad ychwanegol wedi'i amlygu mewn testun coch.

## Teledu lleol Abertawe

| Ymrwymiadau Rhaglennu ar gyfer That's TV – yr hyn a gynigir | |
|---|---|
| **Allbwn rhaglennu** | Bydd y gwasanaeth yn:<br>• adlewyrchu buddiannau a materion pobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr Ardal Drwyddedig yn rheolaidd;<br>• cynnwys newyddion a newyddion chwaraeon lleol sylweddol (gan gynnwys is-genres fel y tywydd, gwybodaeth am faterion cyfoes a rhaglenni nodwedd sy'n adlewyrchu bywyd yn yr ardal a'r cyffiniau);<br>• darparu llwyfan i bobl godi materion a phryderon<br>• cefnogi'r sector gwirfoddol lleol yn briodol drwy roi sylw i weithgareddau lleol;<br>• cynnwys cymysgedd o gynnwys a fydd weithiau'n cynnwys materion o ddiddordeb cyffredinol fel hanes, y celfyddydau ac adloniant~~.~~; ac<br>• fel arfer yn cynnwys bwletinau newyddion o leiaf 5 ~~diwrnod a~~ noswaith bob wythnos.<br>Gall y darparwr gwasanaeth gydleoli ei brif ganolfan gynhyrchu gyda gwasanaethau teledu lleol penodedig eraill o fewn ei grŵp yn amodol ar gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Ofcom a chynnal gweithgarwch cywain newyddion lleol sylweddol yn ardal y drwydded. |

| **Oriau o raglennu lleol bob dydd/wythnos** | **<u>Blwyddyn 1</u>** | **<u>Blwyddyn 2</u>** | **<u>Blwyddyn 3 ymlaen</u>** |
|---|---|---|---|
| **Darllediadau tro cyntaf:** | 17.5 awr | 17.5 awr yr wythnos | 8.75 awr yr wythnos |
| **Ailddarllediadau:** | 32 awr | 32 awr yr wythnos | Dim byd |
| **Oriau o raglennu lleol bob dydd/wythnos yn yr oriau brig (18.00-22.30)** | **<u>Blwyddyn 1</u>** | **<u>Blwyddyn 2</u>** | **<u>Blwyddyn 3 ymlaen</u>** |
| **Darllediadau tro cyntaf:** | 10 awr | 10 awr yr wythnos | 5 awr yr wythnos |
| **Ailddarllediadau:** | 12.5 awr | 17.5 awr yr wythnos | Dim byd |
| **Oriau ac amserlenni rhaglennu newyddion a materion cyfoes lleol** | **<u>Blwyddyn 1</u>** | **<u>Blwyddyn 2</u>** | **<u>Blwyddyn 3 ymlaen</u>** |
| **Darllediadau tro cyntaf:** | **Dydd Llun i ddydd Gwener:**<br><br>Sioe foreol yn seiliedig ar fwletinau treigl 5x15 munud gyda'r tywydd a newyddion traffig rhyngddynt - cyfanswm o 2 awr<br><br>Amser cinio - bwletin 15 munud | **Dydd Llun i ddydd Gwener:**<br><br>16 awr 15 munud awr yr wythnos, 5 awr ohonynt gyda'r nos. | 8.25 awr yr wythnos |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Newyddion Gyda'r Nos - 1 awr<br><br>Cyfanswm o 16 awr 15 munud yr wythnos (3 awr 15 munud y dydd) | | |
| **Ailddarllediadau:** | Dim byd | Dim | Dim |